**Cyngor Sir CEREDIGION** **CEREDIGION County Council**

# Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion 2007-2022

# Datganiad Mabwysiadu (gan gynnwys Datganiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol) Ebrill 2013

**Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004,**
**Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Rheoliad 16),**
**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliad 25)**

**Bryan Thomas, MCIEH, FRSH**

Cyfarwyddwr Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai,
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA
Ffôn 01545 570881 Ffacs: 01545 572117

Director of Environmental Services and Housing,
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA
Tel: 01545 570881 Fax: 01545 572117

# Rhagair

Yn unol â gofynion Rheoliadau 25 (2) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 a Rheoliad 16 Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, mae'n rhaid i'r Awdurdod lunio Datganiad Mabwysiadu ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion.

Mae Rhan 1 y datganiad yn ymwneud â gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 ac mae Rhan 2 yn unol â gofynion Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 .

# Rhan 1: Datganiad o Fabwysiadu'r CDLl

## Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007 – 2022

Ar 25 Ebrill 2013 mabwysiadodd Cyngor Sir Ceredigion Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer Sir Ceredigion. Y CDLl a fabwysiadwyd yw cynllun datblygu Sir Ceredigion a bydd yn sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch cynllunio defnydd tir yn yr ardal.
Mae'r CDLl yn disodli'r cynllun mabwysiedig cyfredol sef Cynllun Fframwaith Dyfed (1991) a'r Cynllun Datblygu Unedol (2001-2016) nad oedd wedi ei fabwysiadu, fel y cyd-destun polisi ar gyfer asesu cynigion datblygu yng Ngheredigion hyd at 2022.

Mae copïau o'r CDLl, argymhellion y sawl a benodwyd i gynnal yr archwiliad annibynnol, yr adroddiad arfarnu cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr adroddiad amgylcheddol), a datganiad ynghylch sut y rhoddwyd cyfrif am yr adroddiad amgylcheddol ac ati, a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gael i'w gweld yn ddi-dâl yn Swyddfa'r Cyngor, Penmorfa, Aberaeron, Llun-Iau, 9am-4.30pm a Gwener 9am-4.00pm ac yn Llyfrgelloedd y Sir a'r Llyfrgelloedd Teithiol, yn ystod yr oriau agor a nodir yn: http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=1310

(neu ffoniwch 01545 572123 i gael gwybod yr oriau agor). Maent ar gael ar wefan y Cyngor hefyd: http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=4761.

Bydd copïau o'r CDLl, gan gynnwys y map cynigion, ar gael i'w prynu yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron Ceredigion SA46 0PA, cyn gynted ag y bo modd.

Dechreuodd yr Archwiliad Cyhoeddus ar CDLl Cyngor Sir Ceredigion ar y 6ed o Ionawr 2012.

Bu ymgynghori cyhoeddus ar argymhelliad yr Arolygydd ynghylch y newidiadau a ddeilliodd o rai o'r Materion yn Codi yn ystod Sesiynau Gwrandawiad 1-3 Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion. Yr oedd y cyfnod ymgynghori'n ymestyn o ddydd Iau 5 Gorffennaf 2012 hyd at ganol dydd (12pm), dydd Gwener 3 Awst 2012. Hysbyswyd pawb ar gronfa ddata'r CDLl trwy lythyr ynghylch yr ymgynghori hwnnw a rhoddwyd hysbyseb yn y wasg leol. Cafodd yr holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghori eu hanfon yn syth at yr Arolygydd a oedd wedi ei benodi er mwyn iddo eu hystyried. Hefyd yr Arolygydd, ac nid y Cyngor, a fu'n delio ag unrhyw ymholiadau

a oedd yn ymwneud â'r newidiadau a gynigiwyd o'r materion yn codi yn ystod yr Archwiliad.
Yr Awdurdod Cynllunio Lleol oedd yn gyfrifol am bob ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn yr Archwiliad ac mae'r broses a ddefnyddiwyd a chrynodeb o'r ymgynghoriadau wedi eu gosod yn y dogfennau canlynol sydd ar gael i'w gweld yn yr un llefydd â'r CDLl (gweler uchod):

- Adroddiad Ymgynghori Dechreuol (Cyngor Sir Ceredigion, 2010),
- Adroddiad Ymgynghori (Atodiadau) (Cyngor Sir Ceredigion, 2010) ac
- Adendwm yr Adroddiad Ymgynghori Dechreuol (Cyngor Sir Ceredigion, 2011).
-

Daeth y CDLl i rym pan gafodd ei fabwysiadu (h.y. 25ed Ebrill 2013).

Os bydd rhywun yn anfodlon ar y CDLl ac mae am gwestiynu ei ddilysrwydd ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a roddir trwy Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf honno neu unrhyw reoliad a wnaethpwyd oddi tani parthed mabwysiadu'r CDLl, caiff wneud cais, o fewn chwe wythnos wedi 2 Mai 2013, i'r Uchel Lys o dan Adran 113 Deddf 2004.

## Rhan 2: Datganiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Rheoliadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol) (Rheoliad 16) yn gosod cwmpas y Datganiad Amgylcheddol, ac yn benodol mae'n nodi 6 mater (materion angenrheidiol) y dylid rhoi sylw iddynt, sef:

a) Sut mae'r ystyriaethau amgylcheddol wedi eu hintegreiddio yn y cynllun neu'r rhaglen;
b) Sut y rhoddwyd cyfrif am yr adroddiad amgylcheddol;
c) Sut y rhoddwyd cyfrif am sylwadau a ddaeth i law trwy ymgynghoriadau statudol;
d) Sut y rhoddwyd cyfrif am ganlyniadau ymgynghoriadau trawsffiniol;
e) Y rhesymau dros ddewis y cynllun neu'r rhaglen a fabwysiadwyd, yng ngoleuni unrhyw ddewisiadau rhesymol eraill;
f) Y mesurau a gymerir i fonitro unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol yn sgil gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen.

Mae gweddill y ddogfen hon yn ymdrin â phob un o'r materion angenrheidiol yn eu tro. Fodd bynnag, rhaid nodi, er y bydd y ddogfen hon yn gosod y sefyllfa fel y mae hi yn eu cylch, ac er y bydd yn darparu gwybodaeth newydd lle bo angen, nid yw'n fwriad i'r ddogfen hon ailadrodd gwybodaeth sydd eisoes wedi ei chynnwys yn nogfennaeth gyhoeddedig y CDLl na Datganiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Caiff yr wybodaeth honno ei dynodi yn y ddogfen hon, a chynhwysir cyfeiriadau cysylltiedig at yr wybodaeth yn y Datganiad. Mae'r drefn hon yn unol â'r cyngor a geir ym Mharagraff 8.5.2 Llawlyfr y CDLl Mehefin 2006.

Oherwydd bod Asesiad Amgylcheddol Strategol CDLl Ceredigion wedi ei ymgorffori yng nghylch gwaith ehangach yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, mae cwmpas y datganiad hwn wedi ei ymestyn y tu hwnt i eiddo'r Rheoliadau SEA i gynnwys ystyriaethau ehangach sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, h.y. mae'n ymwneud a materion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

Wrth roi sylw i'r materion angenrheidiol, bydd angen rhoi sylw hefyd i natur newidiol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) trwy broses y CDLl. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) yn elfen allweddol o ran llunio'r CDLl. Datblygodd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn barhaus, ac ochr yn ochr â'r CDLl wrth iddo gael ei lunio. Mae iddo rôl barhaus yn gefn i'r penderfyniadau ynghylch cynnwys y CDLl, ac mae'n darparu ffon fesur ar gyfer ystyried cynaliadwyedd y cynllun newydd.

## 2.1 Sut y Cafodd Ystyriaethau sy'n ymwneud â Chynaliadwyedd eu Hintegreiddio yn y Cynllun (Rheoliad 16 (4) (a))

2.1.1 Mae'r CDLl wedi bod trwy Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) er mwyn ystyried effaith bosibl y Cynllun ar yr amgylchedd a gwella perfformiad amgylcheddol y Cynllun. Cafodd prosesau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd eu cynnal ochr yn ochr a'u hintegreiddio o fewn yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd a dogfennau eraill sy'n ymwneud â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA). Cynhaliwyd Asesiad Sgrinio o dan Reoliadau'r Cynefinoedd hefyd, a ddaeth i'r casgliad na chaiff y CDLl effaith arwyddocaol ar safleoedd Ewropeaidd, nac yn unigol nac ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill.

2.1.2 I helpu a chynghori gyda llunio'r SA/SEA sefydlwyd Gweithgor Cynaliadwyedd (SWG).

2.1.3 Dyma amcanion y Gweithgor hwnnw:

a) cynorthwyo i ddatblygu methodoleg ar gyfer yr SA/SEA;
b) cynorthwyo i nodi problemau a chyfleoedd cynaliadwy (yn amgylcheddol, yn economaidd, yn gymdeithasol, o ran llywodraethu da ac o ran defnydd cyfrifol ar wyddoniaeth) ac amgylcheddol addas;
c) cynorthwyo i nodi a mesur amcanion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a dangosyddion ar gyfer monitro;
d) darparu canllawiau ar gyfer asesu'r CDLl wrth iddo gael ei lunio o ran amcanion a dangosyddion yr SA/SEA; ac
e) cyfrannu fel bo'n briodol at broses yr Asesiad Priodol.

2.1.4 Trefnwyd aelodaeth y Gweithgor er mwyn ceisio sicrhau cyfraniadau cytbwys a fyddai'n adlewyrchu tair o'r pum egwyddor y mae'r Deyrnas Gyfunol yn eu rhannu o ran datblygu cynaliadwy, sef: "byw o fewn terfynau amgylcheddol," "sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn", a "cyflawni economi cynaliadwy". Ymgynghorwyd â'r Gweithgor Cynaliadwyedd ar wahanol bwyntiau allweddol ym mhroses baratoi'r CDLl, gan gynnwys

gweithdai a gohebiaeth electronig. Rhestrir y cyrff sy'n aelodau o'r Grŵp yn Atodiad 10 yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Terfynol (Ebrill 2013).

2.1.5 Mae'r holl wybodaeth berthnasol ynghylch cynaliadwyedd a'r amgylchedd sy'n ymwneud â'r CDLl wedi ei chynnwys yn nogfennau cyhoeddedig yr SA/SEA a Rheoliadau'r Cynefinoedd a restrir isod ynghyd â chyfeirnodau'r dogfennau o dan yr Archwiliad lle bo hynny'n gymwys:

**Proses Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA)**

- Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (Ionawr 2008) (DC22.1)

**Cyfnod Ymgynghori Cyn Adneuo**

- Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Dechreuol – Crynodeb Annhechnegol (Mawrth 2009) (DC22.3)
- Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Dechreuol (Mawrth 2009) (DC22.4)
- Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Dechreuol – Atodiadau (Mawrth 2009) (DC22.5)
- Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Mawrth 2009) (DC22.6)
- Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – Atodiadau (March 2009) (DC22.7)

**Cyfnod Ymgynghori ar gyfer Adneuo**

- Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd – Adroddiad Annhechnegol (Rhagfyr 2010) (DC2.1)
- Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd (Rhagfyr 2010) (DC2.2)
- Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd – Atodiadau (Rhagfyr 2010) (DC2.3)
- Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Cynefinoedd: Crynodeb o'r Fersiwn Adneuo (Rhagfyr 2010) (DC6.1)
- Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Cynefinoedd: Fersiwn Adneuo (Rhagfyr 2010) (DC6.2)
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Papur Cefndir Technegol y Fersiwn Adneuo (Rhagfyr 2010) (DC6.3)
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Atodiadau (Rhagfyr 2010) (DC6.4)

**Cyfnod Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu**

- Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd (Adendwm y Newidiadau â Ffocws) (Rhagfyr 2011) (DC2.4)
- Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd (Adendwm y Newidiadau â Ffocws) – Atodiadau (Rhagfyr 2011) (DC2.5)
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: (Adendwm y Newidiadau â Ffocws) (Rhagfyr 2011) (DC6.6)
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Adendwm y Newidiadau â Ffocws) – Atodiadau (Rhagfyr 2011) (DC6.7)

- Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd (Adendwm Newidiadau'r Materion sy'n Codi) (Gorffennaf 2012) (ED012f)
- Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd (Adendwm Newidiadau'r Materion sy'n Codi) - Atodiadau (Gorffennaf 2012) (ED012g)
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: (Adendwm Newidiadau'r Materion sy'n Codi) (Gorffennaf 2012) (ED012h)
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Adendwm Newidiadau'r Materion sy'n Codi) – Atodiadau (Gorffennaf 2012) (ED012i)
- Adroddiad Terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd – Crynodeb Annhechnegol (Ebrill 2013)
- Adroddiad Terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (Ebrill 2013)
- Atodiadau'r Adroddiad Cynaliadwyedd (Ebrill 2013)
- Adroddiad Terfynol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Ebrill 2013)
- Atodiadau Adroddiad Terfynol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Ebrill 2013)
- Adroddiad Terfynol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – Crynodeb Annhechnegol (Ebrill 2013)

## 2.2 Sut y Rhoddwyd Cyfrif am Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (Rheoliad16 (4) (b))

2.2.1 Yng nghyd-destun y mater angenrheidiol hwn, ystyrir bod y term "Adroddiad Amgylcheddol" yn golygu adroddiad yr asesiad manwl o'r CDLl, gan mai canfyddiadau asesiad yr adroddiad hwnnw sy'n arwain at newidiadau yng nghynnwys y CDLl. Mae proses yr SA/SEA wedi ei hintegreiddio'n llawn yn y broses o lunio'r cynllun ac arfarnwyd y CDLl yn unol â'r fframwaith arfarnu cynaliadwyedd a oedd wedi ei ddyfeisio a gwnaethpwyd hynny ar adegau allweddol wrth ei baratoi. Cafodd canfyddiadau'r arfarniadau hynny, a ddogfennir yn yr Adroddiadau Arfarnu Cynaliadwyedd cyhoeddedig a phob adendwm iddynt (fel y rhestrir yn 2.1 uchod), eu defnyddio'n gymorth ac yn ddylanwad ar gynnwys terfynol y CDLl.

2.2.2 Gwnaethpwyd yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Dechreuol (ISAR) (2009) gan y Cyngor, gyda chymorth y Ganolfan Gynaliadwyedd (C4S) i helpu asesu'r opsiynau gorau, sicrhau ansawdd y broses a darparu cyngor ar adegau allweddol o'r arfarniad. Bu ymgynghori ynghylch yr ISAR ochr yn ochr â Strategaeth a Ffefrir y CDLl. Ymhlith pethau eraill, yr oedd yr ISAR yn cynnwys dadansoddiad o gydnawsedd opsiynau'r strategaeth ofodol, y weledigaeth, yr amcanion strategol a'r polisïau strategol gan ddefnyddio'r fframwaith arfarnu cynaliadwyedd a oedd wedi ei ddyfeisio. Lle'r oedd darogan effeithiau andwyol posibl o ran cynaliadwyedd neu lle nodwyd cyfleoedd i wella cynaliadwyedd y Strategaeth a Ffefrir, gwnaethpwyd argymhellion. Cafodd yr argymhellion hynny, yn ogystal â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, eu hystyried ymhellach fel rhan o'r broses o baratoi'r cynllun ac fe gafodd diwygiadau priodol eu hymgorffori yn y CDLl Adneuo.

2.2.3 Cynhaliodd y Cyngor Arfarniad o Gynaliadwyedd ar y CDLl Adneuo hefyd, eto gyda chymorth C4S. Yn yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Adneuo (SAR) (2010) cloriannwyd yr amcanion strategol diwygiedig a pholisiau'r

cynllun yn ôl y fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd. Hefyd, yr oedd yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd yn cynnwys arfarniad manwl o Safleoedd Posibl y cynllun a'r dyraniadau arfaethedig, a oedd yn rhan allweddol o Fethodoleg Asesu Safleoedd Posibl y Cyngor. Bu ymgynghori cyhoeddus ynghylch yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd ochr yn ochr â'r CDLl Adneuo, ac ystyriai'r Cyngor fod angen cynnig nifer o Newidiadau â Ffocws i'r Cynllun. Cafodd y newidiadau eu sgrinio yn unol â'r xxx SA/SEA, a bu arfarnu lle'r ystyrid bod newidiadau'n arwyddocaol. Cyhoeddwyd canfyddiadau arfarniad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol mewn adendwm i'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd fis Rhagfyr 2011 ac fe'i cyflwynwyd gerbron yr Archwiliad yn ddiweddarach y flwyddyn honno.

2.2.4 Trwy gydol Archwiliad Cyhoeddus (EiP) y CDLl ystyriai'r Cyngor ei bod yn angenrheidiol, yn sgil y materion a godwyd gan yr Arolygydd, iddo gynnig diwygiadau pellach i'r CDLl. Fis Gorffennaf 2012 cynigiodd y Cyngor gyfres o Newidiadau yn sgil Materion yn Codi yn ymwneud ag Adran 6 y Cynllun (ynghyd â'r Atodiadau yng Nghyfrol 1). Cafodd y newidiadau hynny eu sgrinio'n unol â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA), ac ystyriwyd bod pob un yn ddigon arwyddocaol i'w ailasesu o dan fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA). Cyhoeddwyd canfyddiadau'r cloriannu a wnaethpwyd o dan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) mewn adendwm i'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd gyda'r ymgynghoriad ynghylch y newidiadau arfaethedig (Gorffennaf 2012). Cynigiwyd Newidiadau pellach yn sgil Materion yn Codi i Adran 6 yn ogystal â rhannau eraill o'r cynllun i'r Arolygydd ar ddiwedd yr Archwiliad Cyhoeddus. Cododd y cynigion hynny yn sgil y materion/newidiadau a godwyd gan yr Arolygydd yn ystod yr Archwiliad. Cafodd y rheiny eu sgrinio'n unol â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) hefyd, a bu arfarnu lle'r ystyrid bod y newidiadau'n arwyddocaol. Felly, mae'r newidiadau arfaethedig, a ategwyd gan yr Arolygydd, ynghyd ag argymhellion terfynol yr Arolygydd, wedi eu sgrinio a'u hasesu. Mae canlyniadau'r asesiad sgrinio hwn wedi eu hymgorffori yn yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd terfynol (Ebrill 2013).

## 2.3 Sut y Rhoddwyd Cyfrif am Sylwadau a Ddaeth i Law trwy Ymgynghoriadau Cyhoeddus Statudol (Rheoliad 16 (4) (c))

2.3.1 Cynhaliwyd nifer o ymarferion ymgynghori ynghylch proses y CDLl a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA). Ymgynghorwyd â'r cyhoedd, rhanddeiliaid cyfrannog a'r cyrff ymgynghori statudol sef Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Cadw bob tro.

2.3.2 Cafwyd ymatebion eang i'r CDLl a oedd yn ymwneud â nifer o faterion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Yr oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn ymwneud â strategaeth y Cynllun, lefel y twf a arfaethir a dosbarthiad y twf ledled y sir. Cafwyd nifer sylweddol o ymatebion ynghylch neilltuo tir hefyd. Ceir manylion Cynllun Cynnwys y Cyhoedd y CDLl, sy'n

cynnwys yr ymgynghori cyhoeddus ynghylch amrywiol ddogfennau'r CDLl, yn yr Adroddiad Ymgynghori Dechreuol (Cyngor Sir Ceredigion, 2010), Atodiadau'r Adroddiad Ymgynghori Dechreuol (CSC, 2010) ac Adendwm yr Adroddiad Ymgynghori Dechreuol (Cyngor Sir Ceredigion, 2011).

2.3.3 Yn unol â Rheoliad 12 (5 a 6) Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, cyhoeddwyd adroddiad cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) fis Ionawr 2008 gyda chyfnod ymgynghori o 5 wythnos. Fodd bynnag, oherwydd camgymeriad yn hyd amser y cyfnod ymgynghori cyntaf, ail-ymgynghorwyd ynghylch yr Adroddiad Cwmpasu, ac felly parhaodd y cyfnod ymgynghori am un wythnos ar ddeg i gyd. Yr oedd y cyfnodau ymgynghori'n ymestyn o 7 Ionawr hyd 4 Chwefror, 2008 ac 20 Mawrth hyd 28 Ebrill, 2008. Yr oedd gwybodaeth fanwl ynghylch yr holl ymatebion a wnaethpwyd i'r ymgynghori a'r newidiadau a wnaethpwyd i'r adroddiad cwmpasu ar gael ar wefan y Cyngor fel rhan o adroddiadau cyhoeddedig y Cabinet a'r Cyngor, y naill ar 24 Gorffennaf a'r llall ar 29 Gorffennaf, 2008. Amlygodd yr ymatebion yr angen am wybodaeth sylfaenol gyfredol yn gefn i'r broses asesu; rhoddwyd cyfrif am hynny wrth lunio'r CDLl ei hun yn ogystal â chynhyrchu adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd dilynol. Caiff y cyhoedd weld copïau papur dim ond iddyn nhw wneud cais amdanynt yn Swyddfa'r Cyngor, Penmorfa, Aberaeron.

2.3.4 Yn dilyn yr ymgynghori ynghylch yr Adroddiad Cwmpasu, ystyriwyd y sylwadau a dechreuodd yr Awdurdod Lleol ar y broses o adolygu'r holl waith a wnaethpwyd o ran yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) hyd y pwynt hwnnw. Yn bennaf, adolygwyd cynlluniau a rhaglenni ychwanegol, ystyriwyd gwybodaeth sylfaenol newydd, diweddarwyd y materion allweddol a newidiwyd Fframwaith Amcanion a Dangosyddion Cynaliadwyedd yr Adroddiad o Gynaliadwyedd fel rhan o'r gwaith ar yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd dechreuol.

2.3.5 Yn unol â Rheoliad 15 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, cyflwynwyd Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Dechreuol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) (Mawrth 2009) ar gyfer ymgynghori cyhoeddus gyda Strategaeth a Ffefrir y CDLl am 6 wythnos fis Mawrth a mis Ebrill 2009. Cyflwynir crynodeb o'r materion a godwyd ac sut y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn Atodiad 8 yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Adneuo (Rhagfyr 2010). Cafodd y sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghori eu hystyried o ran eu cynnwys yn yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Adneuo. Amlygodd y broses honno ble y gellid gwneud ystyriaethau pellach yn asesiadau'r dyfodol ac awgrymwyd cynlluniau, polisiau, rhaglenni a ffynonellau tystiolaeth eraill a allai fod yn berthnasol i'r broses asesu.

2.3.6 Yn unol â Rheoliad 13 Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 a Rheoliad 17 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, cafodd Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Adneuo'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (Rhagfyr 2010) ei gyflwyno ar gyfer ymgynghori cyhoeddus gyda'r

CDLl Adneuo am gyfnod o 8 wythnos rhwng Rhagfyr 2010 a Chwefror 2011. Cyflwynir crynodeb o'r materion a godwyd a sut y rhoddwyd cyfriif amdanynt yn Atodiad 1 Adendwm yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Adneuo (Rhagfyr 2011). Ymhlith y newidiadau a gododd o'r broses hon yr oedd nifer o bwyntiau o eglurder, yr angen i gynnwys cynlluniau, polisiau a rhaglenni ychwanegol a mân newidiadau i asesiadau penodol o ran polisi a safleoedd.

2.3.7 Argymhellodd y Cyngor nifer o Newidiadau â Ffocws i'r CDLl yn sgil y sylwadau a gafwyd yn ystod yr Ymgynghori ynghylch Adneuo. Bu ymgynghori pellach am 8 wythnos ynghylch y newidiadau arfaethedig hynny a'r arfarniadau a wnaethpwyd arnynt o ran yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol rhwng mis Rhagfyr 2011 a mis Chwefror 2012. Ymgynghorwyd ynghylch newidiadau arfaethedig pellach penodol a oedd yn ymwneud â'r Strategaeth a gododd o'r Archwiliad Cyhoeddus a'r arfarniadau o dan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol am gyfnod o 4 wythnos rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2012. Ni chafwyd dim sylwadau ynghylch yr elfennau a oedd yn ymwneud a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn yr ymgynghoriadau hynny.

## 2.4 Sut y Rhoddwyd Cyfrif am Ganlyniadau Ymgyngyhoriadau Trawsffiniol (Rheoliad 16 (4) (d))

2.4.1 Mae'r rheidrwydd hwn o dan Reoliadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) yn ymwneud yn benodol ag ymgynghori gydag Aelod Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd. Felly, nid yw'n berthnasol i Geredigion ac ni chodwyd dim materion trawsffiniol o'r fath yn ystod proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) ac nid yw adroddiadau Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) y CDLl yn darparu dim gwybodaeth yn ei gylch.

2.4.2 Bu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y CDLl yn ystyried effeithiau y tu hwnt i derfynau'r Cyngor Sir ond daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r Cynllun yn peri dim effeithiau andwyol y tu allan i Geredigion. Ni chodwyd dim materion trawsffiniol o dan yr asesiad hwn.

## 2.5 Y Rhesymau Dros Ddewis y Cynllun neu'r Rhaglen a Fabwysiadwyd, yng Ngoleuni Unrhyw Ddewisiadau Rhesymol Eraill (Rheoliad 16 (4) (e))

2.5.1 Ystyriwyd strategaethau, polisïau a dyraniadau gofodol eraill wrth baratoi'r CDLl a gwnaethpwyd arfarniadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) arnynt yn ystod gwahanol gamau'r broses. Ystyrir y tair agwedd yma ar wahân isod.

2.5.2 O ran strategaeth ofodol amgen, bu'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Dechreuol yn ystyried pum opsiwn o ran twf:

- Opsiwn 1: Cyflawni twf tybiedig yr aelwydydd.
- Opsiwn 2: Darparu ar gyfer mwy na thwf tybiedig yr aelwydydd
- Opsiwn 3: Darparu ar gyfer llai na thwf tybiedig yr aelwydydd
- Opsiwn 4: Darparu ar gyfer y twf tybiedig yn sector y tai fforddiadwy'n unig.
- Opsiwn 5: Darparu ar gyfer twf aelwydydd o fewn ystod sy'n rhychwantu'r prif amcanestyniad o ran twf aelwydydd i roi cyfrif am dwf aelwydydd sy'n codi o aelwydydd newydd sy'n ymffurfio ymhlith poblogaeth breswyl bresennol Ceredigion ac o'r boblogaeth sy'n symud i mewn.

2.5.3 A naw o opsiynau o ran dosbarthiad:

- Opsiwn 6: Ledled y sir gyfan, canolbwyntio cyfleoedd twf yn y 6 phrif dref yn unig.
- Opsiwn 7: Ledled y sir gyfan, canolbwyntio twf yn y 6 phrif dref a'r aneddiadau mwy o faint yn unig.
- Opsiwn 8: Ledled y sir gyfan, canolbwyntio % sylweddol o'r cyfleoedd am dwf yn y 6 phrif dref ond sicrhau bod cyfleoedd i'w cael mewn mannau eraill hefyd yn yr aneddiadau mawr a bach.
- Opsiwn 9: Ledled y sir, caniatau darpariaeth fwy gwasgaredig o gyfleoedd twf – gan adael i bob anheddiad dyfu (heb ddim hierarchaeth benodol o ran twf).
- Opsiwn 10: Rhannu'r sir gyfan yn barthau lleol a phob un wedi ei adnabod ar sail nifer o aneddiadau sydd â pherthynas â'i gilydd a gosod lefel o dwf ar gyfer y parth (grŵp) neilltuol hwnnw yn hytrach nag ar gyfer pob anheddiad. Nodi 1 neu 2 o aneddiadau allweddol yn y parth lle dylid lleoli cyfran dda o'r twf.

- Opsiwn 11: Rhannu'r sir yn nifer o ardaloedd 'nodwedd' a phennu parthau lleol oddi mewn i'r rheiny o amgylch nifer o aneddiadau sydd â pherthynas â'i gilydd a gosod lefel o dwf ar gyfer y parth (grŵp) neilltuol hwnnw yn hytrach nag ar gyfer pob anheddiad. Nodi 1 neu 2 o aneddiadau allweddol yn y parth lle dylid lleoli cyfran dda o'r twf.

- Opsiwn 12: Ledled y sir gyfan, canolbwyntio cyfleoedd am dwf yn y 6 phrif dref ond sicrhau bod cyfleoedd i'w cael mewn mannau eraill trwy rannu'r sir gyfan yn barthau lleol a phob un wedi ei adnabod ar sail nifer o aneddiadau sydd â pherthynas â'i gilydd; a gosod lefel o dwf ar gyfer y parthau (grwpiau) yn hytrach nag ar gyfer pob anheddiad. Nodi'r anheddiad/aneddiadau sy'n ganolfannau gwasanaethau gwledig ym mhob parth lle dylid lleoli'r rhan fwyaf o'r twf.
- Opsiwn 13: Pa bynnag batrwm dosbarthu a ddewisir, rhyddhau safleoedd yn ddilyniannol er mwyn rhyddhau tir ar gyfer tai mewn cyfnodau er mwyn darparu ar gyfer ystod o dwf.
- Opsiwn 15: Addasu'r ddarpariaeth ar gyfer twf aelwydydd gan roi cyfrif am anghenion yr Awdurdodau cyffiniol a gallu'r aneddiadau sydd ar y ffin i wasanaethu lefel briodol o dai.

2.5.4 Aseswyd pob strategaeth yn ôl fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a daethpwyd i'r casgliad mai Opsiynau 5 a 12 oedd â'r potensial gorau o ran Cynaliadwyedd pe gosodid polisïau cadarn i liniaru effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol datblygu. Cyflwynwyd y cyfuniad hwnnw o Opsiynau yn yr ymgynghori cyn-adneuo fel Strategaeth a Ffefrir y CDLl.

2.5.5 Cafodd opsiynau polisi eu datblygu a'u hystyried drwyddi draw o'r cyfnod cyn-adneuo hyd at gwblhau Archwiliad y CDLl. Yn y cyfnod cyn-adneuo yr oedd hynny'n golygu arfarnu polisïau strategol o dan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, ac yr oedd hynny wedyn yn sail ar gyfer polisïau manwl y CDLl Adneuo. Cafodd y polisïau Adneuo eu harfarnu hefyd o dan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol tra oeddynt yn cael eu datblygu ac ystyrir bod polisïau'r Cynllun yn cynnig fframwaith effeithiol a digon pwrpasol i helpu hwyluso datblygu cynaliadwy yng Ngheredigion.

2.5.6 O ran yr opsiynau parthed neilltuo safleoedd, defnyddiwyd methodoleg ac iddi bum cam i ystyried Safleoedd Posibl. Yr oedd hynny'n cynnwys arfarniad o dan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol o'r holl safleoedd a oedd wedi pasio camau dechreuol proses y Safleoedd Posibl; gwelir y canlyniadau yn Atodiad 5 yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Adneuo (2010).

2.5.7 Ar ddiwedd y broses ymgorfforwyd y safleoedd mwyaf priodol yn y CDLl Adneuo fel dyraniadau neu safleoedd a neilltuwyd. Cafodd y dyraniadau hynny arfarniad ychwanegol o dan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a fu'n gymorth i nodi dulliau lliniaru a gwella manylach fel bo angen a bu'n gymorth o ran cynnwys Rhestr y Safleoedd a Neilltuwyd, yng Nghyfrol 2a y CDLl terfynol ar gyfer pob safle.

## 2.6 Y Mesurau a Gymerir i Fonitro Unrhyw Effeithiau Arwyddocaol ar Gynaliadwyedd yn Sgil Gweithredu'r Cynllun neu'r Rhaglen (Rheoliad 16 (4) (f))

2.6.1 O dan Reoliad CDLl 37 mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol a'i gyflwyno gerbron Llywodraeth Cymru ar gyfer monitro eitemau penodol yn ogystal â nodi polisïau nad ydynt yn cael eu gweithredu. Hefyd, o dan Reoliad 17 Rheoliadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol mae'n rhaid i'r Cyngor fonitro effeithiau amgylcheddol arwyddocaol y cynllun. O ran y CDLl caiff hyn ei ehangu i gynnwys effeithiau arwyddocaol ar gynaliadwyedd.

2.6.2 Felly, mae monitro'r cynllun a'i effeithiau amgylcheddol arwyddocaol yn ofynion statudol. Yn ôl Canllawiau Llywodraeth Cymru dylai canfyddiadau unrhyw waith monitro a wneir o dan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gael eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol gyda chanfyddiadau gwaith monitro'r CDLl. Felly, arferir dull integredig o ran monitro gweithrediad y Cynllun a'r effeithiau arwyddocaol ar gynaliadwyedd, yn ogystal â'r effeithiau

ansicr hynny a allai esgor ar effeithiau andwyol annisgwyl, yn flynyddol a chyhoeddir yr Adroddiad Monitro Blynyddol bob mis Hydref.

2.6.3 O ran yr elfen o'r Adroddiad Monitro Blynyddol sy'n ymwneud â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, mae fframwaith monitro Arfarnu Cynaliadywedd wedi ei datblygu fel rhan o broses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, ac mae'n cynnwys agweddau cymdeithasol ac economaidd yn ogystal â rhai amgylcheddol. Mae'r fframwaith monitro Arfarnu Cynaliadywedd yn gosod targedau a dangosyddion ar gyfer nodi pob un o amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r ffynonellau gwybodaeth. Cynhwyswyd fframweithiau monitro drafft yn yr Adroddiadau Arfarnu Cynaliadwyedd Dechreuol ac Adneuo. Mae'r rheiny bellach wedi eu troi'n fframwaith manwl, ac mae hwnnw i'w weld yn Adran 10 yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Terfynol (Ebrill 2013).

**Cyngor Pellach**

Os byddwch chi angen rhagor o gyngor neu gymorth ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol neu os ydych chi am gael eich cynnwys ar gronfa ddata ymgynghori'r Awdurdod, cysylltwch â'r Adain Polisi Cynllunio, Polisi Cynllunio a Gwasanaethau Ymchwil, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA
neu ffoniwch: 01545 572123 neu ebostiwch ldp@ceredigion.gov.uk